***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 4

# GWEITHREDU CYNIGION I NEWID CATEGORI YSGOL

## **RHAN 3**

## TROSGLWYDDO TIR

*Cyfyngiadau ar waredu neu ddefnyddio tir*

35 (1) At ddibenion paragraffau 36 a 37 mae'r weithdrefn i ddod yn ysgol mewn categori arall heb ei chwblhau mewn perthynas ag ysgol pan fo'r weithdrefn wedi ei dechrau gan y corff llywodraethu mewn perthynas ag ysgol a heb gael ei therfynu.

(2) Bernir bod y weithdrefn wedi ei dechrau mewn perthynas ag ysgol pan fo'r awdurdod lleol yn cael hysbysiad o gyfarfod y corff llywodraethu y mae cynnig ynddo i ystyried cael penderfyniad i ymgynghori ynghylch cynigion i newid categori.

(3) Bernir bod y weithdrefn wedi ei therfynu—

(a) os na chynhelir y cyfarfod,

(b) os cynhelir y cyfarfod ond na roddir y cynnig gerbron neu, er bod y cynnig wedi ei roi gerbron, nid yw'r penderfyniad yn cael ei basio,

(c) os na wneir yr ymgynghoriad yn unol ag adran 48,

(d) os na chaiff y cynigion y gwnaed yr ymgynghoriad mewn cysylltiad â hwy eu cyhoeddi yn unol ag adran 48,

(e) os caiff y cynigion eu gwrthod gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 neu gan awdurdod lleol o dan adran 51 neu os cânt eu tynnu'n ôl neu os yw'r corff llywodraethu wedi penderfynu peidio â'u gweithredu o dan adran 53, neu

(f) ar ddyddiad gweithredu'r cynigion.